

# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

## 9 Tachwedd 2022

Yn bresennol: Dr R Heath Davies (Cadeirydd)  
Cynghorydd D Clements, Mrs S Hoss, Mr G Jones a'r  
Cynghorydd V Thomas.

[Ymunodd y Cynghorydd S Alderman â'r cyfarfod ar ôl ystyried Cofnodion y Grŵp Iechyd a Diogelwch (gweler Cofnod 5); Ymunodd y Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y Diweddariad ar Iechyd a Diogelwch (gweler Cofnod 8).]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.50am; 12 canol dydd – 12.45pm)

### 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James. Roedd y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall wedi rhoi gwybod y byddai'n ymuno â'r cyfarfod yn ddiweddarach.

### 2. Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

### 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022 a'u dilysu.

### 4. Materion yn Codi

#### a) Twristiaeth Gynaliadwy (Cofnod 6)

Gofynnodd un Aelod a oedd adroddiad Archwilio Cymru yn amlinellu'r negeseuon cyffredin i'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i ddsbarthu mewn gwirionedd i'r Pwyllgor. Dywedodd nifer o'r Aelodau eu bod yn credu bod hyn wedi digwydd, ond cytunodd y Prif Weithredwr i anfon yr adroddiad unwaith eto at yr Aelod dan sylw rhag ofn nad oedd y copi gwreiddiol wedi cyrraedd pen ei daith.

#### **Nodwyd.**

#### b) Perfformiad Cyllideb y Canolfannau (Cofnod 11)

Gofynnodd un Aelod am ragor o wybodaeth ynghylch pa mor broffidiol neu amhroffidiol yw canolfannau'r Awdurdod, er ei bod yn deall nad oeddent yn cael eu rhedeg fel endidau masnachol.



Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod hyn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb, ac y byddai'n ceisio ateb y cwestiwn hwn pan fyddai'r eitem yn cael ei hystyried yn ddiweddarach ar yr agenda.

### **Nodwyd.**

c) Ailstrwythuro'r Awdurdod ac Adolygu'r Cyflogau a'r Graddfeydd (Cofnod 12)

Gofynnodd un Aelod am wybodaeth ar y costau staffio yn y tymor hwy o ganlyniad i ailstrwythuro'r Awdurdod ac adolygu'r cyflogau a'r graddfeydd. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Pwyllgor Adnoddau Dynol yn ystyried yr adroddiadau ar yr eitemau hyn yn eu cyfarfod ar 23 Tachwedd, a'r papurau yn cael eu dosbarthu i bob Aelod. Fodd bynnag, byddai angen ystyried gwybodaeth am y costau staffio fel rhan o'r trafodaethau ehangach ar y gyllideb, gyda gweithdy arall ar y gyllideb i'w gynnal fis Rhagfyr. Y gobaith erbyn hynny oedd y byddai gwybodaeth am y setliad tebygol ar gyllideb yr Awdurdod wedi dod i law oddi wrth Llywodraeth Cymru.

### **Nodwyd.**

## **5. Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad y cyfarfod**

Roedd yr Aelodau wedi ystyried adroddiadau cyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2022 ac ar 20 Hydref 2022.

**PENDERFYNWYD** derbyn adroddiadau cyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2022 ac ar 20 Hydref 2022.

[Ymunodd y Cynghorydd S Alderman â'r cyfarfod cyn y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

## **6. Adroddiad Archwilio Mewnol 2022/23**

Estynnodd y Cadeirydd goeso cynnes i Jonathan Maddock o Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod TIAA, a adroddodd ar ganlyniad dau adolygiad a gynhaliwyd ar waith yr Awdurdod, ynghyd â'u hadroddiad ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol Cryno (SICA). Roedd yr adolygiad cyntaf yn cynnwys y gyflogres a'r treuliau, a dywedodd Mr Maddock bod hyn wedi cael sicrwydd sylweddol oedd wedi clustnodi dim ond nifer fach o faterion rheoli arferol. Roedd yr ail adroddiad yn ymwneud ag adolygiad o'r canolfannau ymwelwyr, gan ddefnyddio'r ganolfan yng Nghastell Henllys fel enghraifft. Roedd hyn wedi cael sicrwydd rhesymol gan amlygu nifer o faterion rheoli pwysig ac arferol. Fodd bynnag, dywedodd Mr Maddock gan mai hwn oedd yr archwiliad cyntaf o unrhyw un o'r canolfannau, ei



fod yn ystyried yr adolygiad yn fan cychwyn da, a'i fod yn gobeithio y byddai'r canlyniadau yn cael eu rhannu ar draws y canolfannau eraill.

Yr adroddiad terfynol oedd y crynodeb o sicrwydd rheolaethau mewnol (SICA), oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y materion sy'n ymwneud â Llywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol a'r gwaith Archwilio Mewnol sydd wedi'i wneud hyd yn hyn. Gofynnodd un o'r Aelodau am eglurhad ar y saethau 'Cyfeiriad Teithio' yn y tabl ynghylch Dangosyddion Gwraidd y Broblem (para 8). Dywedodd Mr Maddock bod y saethau hyn yn ymwneud â'r risgiau a glustnodwyd yn argymhellion pob un o'r adroddiadau a wnaed. Y tro hwn nid oedd unrhyw awgrymiadau o eitemau i'w hychwanegu at y gofrestr risg ac felly ni fu unrhyw symud yn yr eitemau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, o ran y gwaith a wnaed yn flaenorol ar Gofrestr Risg yr Awdurdod gan TIAA, ei fod yn ymwybodol bod dau gam gweithredu sy'n dal heb eu cwblhau: darn o waith ynghylch parodrwydd i dderbyn risg, a datblygu dulliau o gael fframwaith sicrwydd y bwrdd. Byddai'r rhain yn cael eu cynnal maes o law.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Archwilydd am ei waith ac am gyflwyno'r adroddiadau yn glir.

## **Nodwyd**

### **7. Adroddiad ar y Perfformiad yn y Cyfnod yn diweddu 30 Medi 2022**

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2022/23 oedd â'r nod o gefnogi'r Awdurdod wrth iddo symud i atgyfnerthu ei weithgareddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei Amcanion Llesiant newydd a'i flaenoriaethau lefel uchel. Gan fod yr Awdurdod yn mynd drwy gyfnod o newid, roedd fframwaith mesur perfformiad trosiannol wedi'i roi ar waith ar gyfer 2022/23 oedd yn cael ei fonitro drwy system yr Awdurdod o gyflwyno Adroddiadau ar Berfformiad.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 30 Medi 2022 ac yn cynnwys ystadegau Chwarter 1 i Chwarter 2 ar gyfer rhai setiau data a gofnodir yn chwarterol. Cyflwynwyd diweddariad ar ailstrwythuro'r sefydliad; prosiectau Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy; perfformiad yr adran gynllunio; ac o dan y pedwar amcan o gadwraeth, hinsawdd, cysylltiad a chymunedau.

Roedd yr Aelodau yn falch o nodi faint o waith oedd yn digwydd ar draws yr Awdurdod, rhai ohonynt yn fentrau tymor hwy y byddai'n cymryd amser i weld y canlyniadau, ac roedd ganddynt ddiddordeb mewn darllen yr astudiaethau achos a ddarparwyd. Er hynny, nodwyd bod sawl prosiect yn dal yn y categori oren, a gofynnwyd a oedd modd cyflawni'r rhain i gyd cyn diwedd y flwyddyn. Roedd y swyddog wedi sicrhau'r Pwyllgor drwy



egluo, o ganlyniad i'r fframwaith trosiannol oedd wedi'i roi ar waith, bod camau gweithredu wedi'u categoreiddio o P1 i P3 i ddangos lefel y flaenoriaeth a'r risg i'r Awdurdod pe na baent yn cael eu cyflawni neu eu symud yn eu blaen cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Felly gofynnwyd i'r Aelodau ganolbwyntio eu sylw ar y camau ymlaen o weithredu yn P1.

Roedd rhywfaint o ddryswch hefyd ynghylch y golofn 'tueddiadau' a'r modd yr oedd hynny yn ymwneud â statws cynnydd y cam gweithredu oherwydd mewn rhai achosion roedd yn ymddangos bod y wybodaeth yn gwrth-ddweud ei gilydd. Eglurodd y Swyddog bod yna ffactorau heblaw am yr amserlen allai achosi i'r cam gweithredu symud rhwng y graddfeydd coch oren a gwyrdd, ond cytunodd i edrych ar y rhai oedd yn anghyson.

Yn olaf, o ran y gŵyn am y Gymraeg a dderbyniwyd, gofynnwyd i'r swyddogion wirio bod hyn wedi'i gyfeirio at Gomisiynydd y Gymraeg. Nodwyd bod cwyn arall wedi'i wneud yn uniongyrchol i'r Comisiynydd yn ddiweddar, ond canfuwyd nad oedd achos i ymchwilio iddo yn yr achos hwnnw.

### **Nodwyd**

[Ymunodd y Cynghorwyr R Owen ac S Skyrme-Blackhall â'r cyfarfod adeg ystyried yr adroddiad a ganlyn.]

## **8. Adroddiad Chwarterol ar Iechyd, Diogelwch a Lles**

Roedd adroddiad y Rheolwr Adnoddau Dynol yn amlinellu'r data a'r camau a gymerwyd mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles.

Roedd yr Aelodau yn siomedig i nodi'r cynnydd yn y cam-drin geiriol a brofir gan aelodau'r staff, a gofynnwyd a oedd unrhyw reswm cyson y tu ôl i hyn ac a oedd cyfathrebu â'r cyhoedd ar faterion anodd yn ddigon clir. Dywedodd y swyddog bod un mater yn ymwneud â pharcio dros nos a'r lleill yn ymwneud â materion cynllunio, hynnyw yw, achosion lle'r oedd y cyhoedd yn anhapus â'r cais/penderfyniad oedd yn cael ei wneud. Nodwyd bod hyfforddiant yn cael ei drefnu i gynorthwyo'r staff i ddelio â'r cyfryw sefyllfaoedd ac i ddod yn fwy cydnerth i wynebu ymddygiad o'r fath, er i'r Prif Weithredwr ychwanegu nad oedd derbyn cam-drin o'r fath yn rhan o swydd unrhyw un a bod hyn yr un mor gymwys i'r Aelodau ag i'r staff.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr AD am adroddiad cynhwysfawr.

### **Nodwyd.**



## 9. Cofrestr Risg

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y gofrestr risg ddiweddaraf, oedd wedi'i hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth. Nodwyd bod chwech newid wedi'u gwneud i'r Gofrestr ers y cyfarfod diwethaf, ac eglurwyd y chwech, ac yn dilyn roedd rhestr o'r saith prif risg i'r Awdurdod, yn seiliedig ar ystyried risg gynhenid.

Ymddiheurodd y Rheolwr Cyllid am gamgymeriad teipio yn y tabl cyntaf ar deitl Risg 1, ddylai fod wedi darllen "Risg Tymor Byr o ostyngiad sylweddol mewn cyllid.....". Eglurodd hefyd y gofynnwyd am farn yr Aelodau ar gynnwys y colofnau perchennog, y sgôr darged a'r dyddiad a adolygwyd ddiwethaf, ac mai'r bwriad oedd llenwi'r colofnau hyn cyn y cyfarfod nesaf.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch Risg 5 – gofynion amrywiaeth o ran Aelodaeth yr Awdurdod, gan ei bod yn ymddangos mai ychydig o reolaeth oedd gan yr Awdurdod dros y rhai a benodir gan naill ai Llywodraeth Cymru neu Gyngor Sir Penfro. Nodwyd hefyd nad oedd gan y Sir ddiwylliant mor amrywiol â rhannau eraill, mwy trefol, o'r wlad. Atebodd y Prif Weithredwr bod trafodaeth wedi'i chynnal gyda Llywodraeth Cymru ynghylch Cynllun Mentora Aelodau i'w ddatblygu cyn y penodiadau a ragwelir yn y flwyddyn sydd i ddod, a hyn, ynghyd â'r Ymgynghorydd Strategol newydd ar Gynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu yn datblygu cynllun fyddai'n annog pobl o gefndiroedd amrywiol i ymgeisio am swyddi wrth i'r swyddi ddod yn wag. Cytunodd i ddiwygio'r geiriad yn y golofn liniaru i amlygu'r camau gweithredu hynny sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

Hefyd gofynnodd yr Aelodau i swyddogion edrych ar y golofn tueddiadau chwarterol gan nad oedd hyn o reidrwydd yn cyd-fynd â'r newidiadau a amlygwyd yn nhabl 1. Nodwyd hefyd bod Risg 44 yn cyfeirio at gostau cyfleustodau uwch. Fodd bynnag roedd pwysau costau eraill ar yr Awdurdod, a dylid ystyried cyfuno'r risg gyda'r rhai sy'n ymwneud ag incwm i amlygu'r risg o ddiffyg yn y gyllideb yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

## 10. Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb am y 6 mis hyd at fis Medi 2022

Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid yn dangos bod y gwariant refeniw net yn £2,500k, £170k (6.4%) o dan y gyllideb broffiliedig o £2,670k, a rhoddwyd y prif resymau dros yr amrywiad hwn. Tynnwyd sylw arbennig at y tabl o incwm a gynhyrchir gan yr Awdurdod oedd yn dangos bod incwm gwerthu nwyddau, ffioedd mynediad, ac incwm caffi Caeriu i fyny yn erbyn ffigurau'r gyllideb a ffigurau'r llynedd. Er bod incwm meysydd



parcio yn uwch na'r gyllideb, roedd yr incwm yn llai o'i gymharu â 2021/22 o ganlyniad i'r nifer arbennig o uchel o ymwelwyr yn y sir y llynedd. Eglurodd hefyd bod yr amrywiadau mewn incwm yn amlygu nifer y defnyddwyr meysydd parcio, yn hytrach nag unrhyw gynnydd yn y tâl a godir am barcio ceir.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r cyllid ychwanegol a ddyfarnwyd i'r Awdurdod drwy Gronfa Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, gyda'r rhaglen hon yn rhoi cyllid gwerth hyd at £2,500k ar gyfer tri phrosiect dros dair blynedd. Cytunodd y swyddog mai ei fwriad oedd cyflwyno dadansoddiad o'r gwariant ar y prosiectau hyn gerbron cyfarfodydd yn y dyfodol.

Aeth yr adroddiad ymlaen i roi rhagolwg o'r refeniw ar ddiwedd yr ail chwarter oedd yn dangos gwarged gweithredu o £140,00 ar ddiwedd blwyddyn 2022/23, yn erbyn dim gwarged yn y gyllideb wreiddiol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd cymynrodd hael o £52,000. Talodd y Prif Weithredwr deyrnged i waith tîm codi arian yr Awdurdod ac i Ymddiriedolaeth y Parc Cenedlaethol am eu hymgyrch cymynrodd oedd yn dechrau dwyn ffrwyth. Roedd yn falch o'r sefyllfa a ragwelwyd, ond dywedodd bod yr Awdurdod yn dal i wynebu heriau ariannol. Fodd bynnag byddai'r sefyllfa bresennol yn caniatáu mwy o amser i'r Awdurdod gymryd y camau angenrheidiol i newid ei amrywiaeth ariannu a'i sylfaen costau. Roedd yr Aelodau yn falch o weld darlun mor gadarnhaol ac yn gobeithio y gellid rhoi cydnabyddiaeth briodol i'r rhodd hael, oedd mor amserol.

Rhodddwyd manylion hefyd am y Rhaglen Gyfalaf a'r Cronfeydd Wrth Gefn i'w Defnyddio a'r Cronfeydd a Glustnodwyd. Dywedwyd bod y Rhaglen Gyfalaf am y flwyddyn wedi cynyddu (ac nid gostwng fel y nodwyd yn yr adroddiad) o'r gyllideb wreiddiol o £1,127,000 i gyllideb ddiwygiedig o £1,187,000. Rhan o'r rheswm am hyn oedd yr oedi yn y gwaith o ddatblygu'r Ystafell Werdd, y disgwylir bellach i ran ohono gael ei gario ymlaen i flwyddyn ariannol 2023/24. Roedd peth gwariant hefyd wedi'i gario ymlaen o 2021/22.

Gan ddychwelyd i'r pwynt cynharach ynghylch costau net canolfannau'r Awdurdod, tynnodd y Rheolwr Cyllid sylw'r Aelodau at yr atodiad i'w adroddiad oedd yn nodi'r costau gweithredu a gofnodwyd, gan gynnwys cyflogau, net o unrhyw incwm, ar gyfer canolfannau cost yr Awdurdod. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr na fyddai'r Canolfannau yn goroesi fel busnesau preifat ac, yn yr un modd â'r canolfannau hamdden, nid oedd disgwyl iddynt fod yn broffidiol. Dywedodd bod yr hyn y disgwylir i'r Canolfannau ei gyflawni yn dibynnu ar ddyheadau'r Aelodau, ac y gellid ystyried hyn fel rhan o gylch gorchwyl Pwyllgor Adolygu Gweithredol yr Awdurdod.



Nodwyd hefyd bod Aelodau a swyddogion wedi bod yn cymryd rhan mewn adolygiad oedd yn cael ei gynnal gan Archwilio Cymru ar yr Awdurdod yn cynhyrchu incwm, a rhagwelwyd y byddai'r adroddiad ar yr adolygiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn gynnar yn 2023.

**Nodwyd.**

**11. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

**12. Eithrio'r Cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.50am a 12pm.]

**13. Seibergadernid**

Cyflwynodd yr adroddiad ddau adroddiad oedd yn ymwneud â Seiberddiogelwch gan Archwilio Cymru. Y cyntaf oedd adroddiad cyffredinol ar "Seibergadernid yn y Sector Cyhoeddus" a gyflwynwyd gyntaf i'r Pwyllgor fis Mai 2021, tra bod yr ail adroddiad "Dysgu o Ymosodiadau Seiber" wedi'i dderbyn yr wythnos flaenorol.

Cytunodd yr Aelodau bod yr adroddiadau yn ddiddorol ac yn ymwneud â materion difrifol, ac aeth y swyddogion ymlaen i roi sicrwydd i'r Pwyllgor bod llawer o'r argymhellion yn yr adroddiadau eisoes yn eu lle, tra bod eraill yn derbyn sylw. Awgrymwyd y byddai Hyrwyddwr Aelodau ar seibrgadernid yn ddefnyddiol ac y byddai adroddiad yn gofyn am hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'r holl Aelodau, a'r staff, yn elwa o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Gellid trefnu Gweithdy i'r Aelodau, ac y byddai diweddariadau pellach yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

